# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Ionawr 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yngl•n â chyflwyno 'Diwrnod Prydain' dynodedig. (WAQ45516)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yng Nghymru ynghylch effaith y posibilrwydd o gyflwyno 'Diwrnod Prydain' dynodedig. (WAQ45517)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi trafod aelodaeth Cyngor Celfyddydau Cymru gyda Chyfarwyddwr Artistig Clwyd Theatr Cymru. (WAQ45522)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y gwnaeth y Gweinidog drafod ddiwethaf gyda Chyfarwyddwr Artistig Clwyd Theatr Cymru ynghylch ariannu'r celfyddydau gydag arian cyhoeddus. (WAQ45523)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ddarpariaethau a wneir i wella'r seilwaith trafnidiaeth yn Aberystwyth o ystyried bod swyddi'n cael eu trosglwyddo yno. (WAQ45518)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd y Gweinidog yn gallu adrodd ar osod dolenni pasio ar y rheilffyrdd sy'n dod i mewn i Aberystwyth. (WAQ45519)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa astudiaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ar agor gorsafoedd rheilffordd yn Bow Street a Llandre ar gyfer cymudwyr i Aberystwyth.  (WAQ45520)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y galwadau ffôn cychwynnol a dderbyniwyd gan Llygad Busnes Canol y Gogledd mis wrth fis.

(WAQ45521)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei ddarparu ar gyfer cwmnïau yng Nghymru sy'n ceisio sicrhau patent ar gyfer unrhyw ddyfeisiadau newydd neu gynnyrch neu wasanaeth arloesol. (WAQ45526)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y bwriada'r Gweinidog eu cynnal gyda Defra ynghylch eithrio dros dro yr haid o adar/dofednod cofrestredig o'r gwaharddiad ar frechu yn erbyn Ffliw Adar. (WAQ45507)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa weithdrefnau diogelwch sydd ar waith yn erbyn mewnforio'r Chwilen *Citrous Longhorn* yn ddamweiniol ac a welwyd y bygythiad hwn erioed i'n coed derw a ffawydd brodorol yng Nghymru. (WAQ45508)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael o ran gwahardd rheoli llwynogod ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. (WAQ45514)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw polisi'r Gweinidog ar reoli llwynogod ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. (WAQ45515)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa weithdrefnau monitro a roddir ar waith ar hyd llwybr y Biblinell LNG er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl ar yr amgylchedd a nodweddion y tirwedd ac yr adferir hwy i'w cyflwr blaenorol cyn gynted ag y bo modd. (WAQ45528)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y bydd busnes Llywodraeth y Cynulliad yn mynd rhagddo pe digwyddai pandemig Ffliw Adar. (WAQ45524)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i gynyddu gweithio gartref pe deuai'r pandemig Ffliw Adar i'r DU. (WAQ45525)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa amcangyfrifon a roddwyd gan y Prif Swyddog Meddygol i Lywodraeth y Cynulliad ynghylch nifer y marwolaethau a welid yng Nghymru pe digwyddai pandemig Ffliw Adar. (WAQ45506)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl sydd wedi marw o sirosis yr iau yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ45509)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl dogn o Taniflu sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth y Cynulliad ei ddefnyddio pe digwyddai pandemig Ffliw Adar a pha gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer cynyddu nifer y dognau. (WAQ45510)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl dogn o Ralenza sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth y Cynulliad ei ddefnyddio pe digwyddai pandemig Ffliw Adar a pha gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer cynyddu nifer y dognau. (WAQ45511)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl dogn o Taniflu fydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ei ddefnyddio pe digwyddai pandemig Ffliw Adar erbyn 31 Rhagfyr 2006. (WAQ45512)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl dogn o Ralenza fydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ei ddefnyddio pe digwyddai pandemig Ffliw Adar erbyn 31 Rhagfyr 2006.
(WAQ45513)

## *Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y T•*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd ar waith i 'ohirio' busnes Cyfarfod Llawn/Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol pe deuai'r pandemig Ffliw Adar i'r DU. (WAQ45527)